Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

8 Gorffennaf 2020

Annwyl gyfeillion

**Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 - torri'r rheol 21 diwrnod**

Yn ein cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2020, trafodwyd y **Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Roedd ein **hadroddiad** dilynol yn nodi bod yr offeryn wedi'i osod **gan dorri'r rheol 21 diwrnod,** ac mae'r rhesymau dros wneud hynny fel y'u nodwyd yn llythyr y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd, dyddiedig 19 Mehefin 2020.

Ysgrifennais atoch ar 17 Mawrth 2020, ac eto ar 1 Gorffennaf 2020, gan nodi ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn torri'r rheol 21 diwrnod yn fwyfwy rheolaidd. Fel y dywedais o'r blaen, nid ydym am weld yr arfer o dorri'r rheol 21 diwrnod yn cael ei normaleiddio mewn unrhyw ffordd.

Byddwn yn parhau i fonitro amlder ac amgylchiadau'r achosion o dorri'r rheol 21 diwrnod yn y dyfodol er mwyn gwneud asesiad cronnus ar ddyddiad priodol yn y dyfodol.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565